# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 16 Ebrill 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion

(123)v5

**TEYRNGEDAU ER COF AM Y FARWNES THATCHER**

Dechreuodd yr eitem am 13:30

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

Dechreuodd yr eitem am 13.44

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**CWESTIYNAU BRYS**

Dechreuodd yr eitem am 14.32

**Cwestiwn Brys 1**

**Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr achosion presennol o'r frech goch yn ne-orllewin Cymru?

Dechreuodd yr eitem am 14.41

**Cwestiwn Brys 2**

**Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith ar y diwydiant amaeth o gau safle prosesu cig Vion ar Ynys Môn?

Dechreuodd yr eitem am 14.50

**Cwestiwn Brys 3**

**Russell George (Sir Drefaldwyn)**: Pa gymorth ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei roi i helpu ffermwyr defaid yr ucheldir yr effeithiwyd arnynt yn ddiweddar gan y tywydd oer difrifol?

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 15.08

### 3. Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Maes Awyr Caerdydd

Dechreuodd yr eitem am 15.18

### 4. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Gyrfa Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.46

### 5. Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd – i'w gyhoeddi fel Datganiad Ysgrifenedig

### 6. Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013 – Gohiriwyd

### 7. Gorchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013

Dechreuodd yr eitem am 16.21

**NDM5201 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Orchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 8. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Plant a Theuluoedd

Dechreuodd yr eitem am 16.27

**NDM5164 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Plant a Theuluoedd, sy'n ymwneud â diwygiadau i Ddeddf Plant 1989 (adran 31A (4A)) ac adrannau 125 i 131 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 9. Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.33

**NDM5197 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 10. Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.22

**NDM5198 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 11. Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.23

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5199 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 5 | 9 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

### 12. Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 18.46

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5200 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 4 | 10 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

### CYNNIG I ETHOL AELOD A CHADEIRYDD I'R PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Dechreuodd yr eitem am 18.47

**NDM5207 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

1. Gwyn Price (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Mak Drakeford (Llafur Cymru), a;

2. Vaughan Gething (Llafur Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**CYFNOD PLEIDLEISIO**

Dechreuodd yr eitem am 18.48

**Crynodeb o Bleidleisiau**

Daeth y cyfarfod i ben am 18:50

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:00, Dydd Mercher, 17 Ebrill 2013**